



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

## TRAWSGYDYMFFURFIO

CANLLAW I FFERMWYR SY’N YSTYRIED GADAEI  
WYNEB GARW AR EU TIR



Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru  
© Hawlfraint y Goron 2015  
ISBN Digidol 978-1- 4734-5388-3

## **CANLLAW I FFERMWYR SY’N YSTYRIED GADAEL WYNEB GARW AR EU TIR**

Mae risg mawr o adael tir yn foel (wedi’i aredig yn arw) dros y gaeaf oherwydd dŵr ffo ac erydiad pridd, o beidio â rheoli’r tir yn ofalus.

Os ydych wedi cynaeafu cnwd â chombein, cynaeafwr porthiant neu beiriant lladd gwair, gallwch adael y pridd yn foel rhwng y diwrnod ar ôl ei gynaeafu tan 1 Mawrth, cyn belled â’ch bod yn bodloni’r amodau canlynol:

1. Eich bod yn gadael ei wyneb yn arw, fel bod glaw yn gallu treiddio trwyddo’n rhwydd  
ac
2. Nad ystyrir bod risg mawr o erydiad ar y safle  
ac
3. Nad yw’r pridd yn cael ei olchi i lawr llethrau nac oddi ar y cae  
ac
4. Eich bod yn asesu risg wyneb garw ar bridd ac yn cyflwyno’r tabl i Taliadau Gwledig Cymru ar neu cyn diwrnod aredig y tir i adael wyneb garw arno;

**Os ydych yn dewis gadael tir yn foel rhwng y diwrnod ar ôl y cynhaeaf ac 1 Mawrth, eich cyfrifoldeb chi yw bodloni pob un o’r pwyntiau uchod. O beidio â bodloni unrhyw rai o’r gofynion, gallech gael cosb Trawsgydymffurfio ar unrhyw daliadau’r PAC. Dylech felly ystyried y canllaw hwn wrth asesu’ch caeau.**

### **Cyffredinol**

O dan amgylchiadau penodol, mae wynebau garw yn gallu storio dŵr glaw, gan adael i’r dŵr grynhoi cyn iddo dreiddio i’r pridd. Mae hynny’n arafu llif y dŵr dros y pridd ac yn amddiffyn y pridd rhag ei erydu. Mae wynebau garw’n arafu cyflymder y gwynt ar y wyneb hefyd, gan rwystro erydiad gan y gwynt.

### **Prif Ystyriaethau**

Mae’r pwyntiau canlynol yn nodi’r hyn y dylai ffermwyr ei ystyried cyn penderfynu gadael pridd garw.

Gall y perygl o erydu pridd gynyddu os oes mwy nag un o’r ffactorau canlynol yn effeithio ar gae. Rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i bob cae rydych am adael wyneb garw arno.

## 1. Gwead y pridd

Mae'n bwysig gwybod pa fath o bridd sydd gennych ar eich fferm, yn enwedig pa mor wlyb a sefydlog ydyw, er mwyn gallu barnu maint y risg o erydiad. Mae gwead pridd yn cyfeirio at y canrannau cymharol ohono sy'n glai, silt a thywod. Mae gwahaniaethau bach yn gallu effeithio ar faint y bygythiad o erydiad a dŵr ffo am fod y gwead yn dylanwadu ar allu dŵr i dreiddio trwy bridd ac ar ei sefydlogrwydd.

Nid yw pridd tywodlyd yn glynu wrth ei gilydd ac mae dŵr a gwynt yn gallu ei erydu'n rhwydd. Felly, efallai na fyddai'n addas ei adael yn foel a garw dros y gaeaf.

Ar bridd cleiog, mae perygl i ddŵr olchi drosto. Gallai'r dŵr hwn gario gronynnau o bridd, felly efallai nad yw'r pridd hwn chwaith yn addas ar gyfer ei adael yn foel a garw dros y gaeaf.

I gael gwybod beth yw gwead eich pridd chi, rhaid ddadansoddi gwasgariad a maint gronynnau'r pridd. Mae'r diagramau yn Atodiad A yn dangos pa ganran o dywod, silt a chlai sydd ym mhob categori o wead ac yn dangos asesiad llaw y gallwch ei gynnal yn y cae fyddai'n gwneud y tro yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd.

Mae priddoedd canolig (lôm clai tywodlyd neu lôm clai siltiog) yn fwy addas ar gyfer cael eu gadael â wyneb garw na phriddoedd trymach neu ysgafnach.

## 2. Cywasgu pridd

Gallwch balu pydewau pridd â rhaw i asesu adeiledd y pridd ac i weld a yw'r pridd wedi'i gywasgu. Mae twll 30-50cm o led a 30-50 o ddyfnder yn hen ddigon. Dylech ei balu mewn man cynrychioliadol o'r cae (e.e. ddim wrth fwllch neu dalar).

Nid yw aer a dŵr yn gallu symud yn rhwydd mewn pridd sydd wedi'i gywasgu a gallai hynny arwain at olchi pridd a gwrteithiau i ffwrdd. Bydd pridd wedi'i gywasgu'n dangos y nodweddion canlynol:

- Gwreiddiau llorweddol, heb fawr o ddyfnder yn hollti'r pridd
- Craciau llorweddol yn y pridd
- Dim mandyllau nac unrhyw graciau na sianelau amlwg
- Mae'n anodd rhoi cyllell trwy'r haenen sydd wedi'i chywasgu
- Dŵr yn crynhoi yn y pridd neu ar ei wyneb
- Gall cywasgu difrifol arwain at liwo'r pridd yn wyrdd-las a drewdod.

Mae'n bosibl nad yw pridd wedi'i gywasgu'n addas ar gyfer ei adael yn arw oni bai bod yr aredig yn datrys y broblem cywasgu.

### **3. Llethrau**

Mae dŵr yn gallu llifo'n gyflym dros bridd ar lethrau, yn enwedig os nad yw'n gallu treiddio i'r pridd yn gyflym e.e. os ydy adeiledd y pridd yn wael neu ei fod yn bridd sy'n draenio'n araf. Ceir y perygl mwyaf os ydy'r llethr yn fwy na 7° felly dylech feddwl yn galed sut i ddiogelu'r priddoedd hyn rhag erydiad.

Mae pridd ar lethrau mwyn (llai na 3°) yn llai tebygol o erydu'n gyflym a chael ei olchi i ffwrdd. Ond mae dŵr yn llifo dros lethrau mwyn hefyd ac yn cyflymu wrth iddo fynd, yn enwedig os nad yw'r draeniad yn dda neu os yw'r llethr yn un hir.

Dylech fesur onglau lethrau yn gywir os medrwch. Ond mae lethrau'n aml yn anwastad ac yn amrywiol ac mae'n bwysig asesu maint y risg pe baech yn gadael pridd yn foel a garw.

Mae'n bosibl na fyddai llethr sy'n fwy serth na 7° yn addas i'w drin a'i adael yn arw.

### **4. Maint y Cae a Gwaelod Cwm**

Mae llawer iawn o ddŵr yn gallu crynhoi mewn caeau mawr (mwy na 10 hectar) â lethrau hir. Mae llif y dŵr ar waelod cwm yn culhau gan erydu sianelau.

Mae erydiad gan y gwynt yn tueddu i ddigwydd ar dir digysgod sy'n agored i wyntoedd cryf ac mewn mannau lle mae'r gwynt yn cael ei dwnelu.

Mae'n bosibl na fyddai'n addas trin cae mawr â llethr hir a'i adael â wyneb garw.

### **Arferion Da**

Os oes gennych gae sy'n addas ar gyfer ei adael â wyneb garw, dylai'r pwyntiau canlynol eich helpu eto i osgoi erydu'ch pridd. Cofiwch, os ydych yn gadael wyneb garw ar eich tir ond y gwelir bod pridd wedi'i olchi i lawr y llethr neu oddi ar y cae, mae'n bosibl y cewch gosb Trawsgydymffurfio, hyd yn oed os ydych chi wedi asesu'r risg i'r pridd.

- Peidiwch â gadael llethrau hir serth yn foel, hyd yn oed os ydy'r llethr yn llai na chyfartaledd o 7°.
- Ceisiwch ofalu nad yw dŵr yn cael ei sianelu i ffyrdd neu gyrsiau dŵr. Mae pridd ar gaeau wrth gyrsiau dŵr yn fwy tebygol o gael ei olchi i'r cwrs dŵr a'i lygru na phridd ar gaeau nad ydyn nhw'n ffinio â chyrsiau dŵr.
- Plannwch rimynnau o borfa ar lwybrau draenio naturiol (lle mae gwlliau'n cael eu herydu) i helpu i sefydlogi'r pridd ac i weithredu fel suddfan.
- Plannwch leiniau cysgodi a pherthi i rwystro gwynt rhag erydu pridd.
- Chwalwch bridd sydd wedi'i gywasgu trwy ei droi i'r dyfnder cywir pan fydd y pridd yn addas o sych.
- Ceisiwch gynyddu lefel y deunydd organig yn y pridd.
- Defnyddiwch dechnegau trin ysgafn eu heffaith neu droi wyneb y pridd yn unig.
- Ewch â'r aradr ar draws y llethr lle medrwch heb beryglu'ch hun.
- Gadewch rimyn o leiaf 5 metr o led heb ei aredig na'i drin wrth droed llethrau ar gaeau neu godwch ffensys gwaddodion i ddal pridd fyddai fel arall yn cael ei olchi i ffwrdd.

Cewch fwy o gyngor ar asesu pridd i osgoi erydiad a dŵr ffo yn y ddogfen 'Cael y gorau allan o'ch pridd isod gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

<http://adlib.everysite.co.uk/adlib/defra/content.aspx?doc=263232&id=263233>

## ATODIAD A


**Diagram yn dangos canran y tywod, silt a chlai ym mhob categori o wead.**

Mae'r canrannau sy'n pennu'r 11 prif gategori gwedd wedi'u diffinio yn y diagram trionglog isod.

Gellir rhannu tywod, tywod lomog, lôm silt tywodlyd a lôm clai tywodlyd yn is-gategoriâu pellach gan ddibynnu ar faint y tywod:

Mân – mwy na dwy ran o dair o'r tywod yn llai na 0.2mm

Bras – mwy na thraean o'r tywod yn fwy na 0.6mm



Ffynhonnell: Think Soils, Asiantaeth yr Amgylchedd

## Diagram i ddangos sut i gynnal asesiad llaw yn y cae


I fesur gwead pridd yn fanwl gywir, rhaid ei ddadansoddi mewn labordy ond i wneud pethau'n haws, mae modd cynnal asesiad llaw fel a ganlyn:

Cymerwch lond llwy bwdin o bridd. Os yw'n sych, rhowch ychydig o ddŵr arno fesul diferyn a'i dyluno'n drylwyr rhwng eich bys a'ch bawd nes bod briwsion y pridd yn chwalu. Mae angen digon o wlybaniaeth i lynu'r pridd ac i'w wneud mor ludiog ag y gall fod. Dilynwch y llwybrau ar y diagram i weld ei categori:

### Diagram yn dangos asesiad gwead â llaw y gallwch ei wneud yn y cae

#### Adnabod gwead pridd

At ddibenion ymarferol gallwch asesu gwead pridd â'ch llaw (dilynwch y diagram isod). Casglwch lwy bwdin o bridd. Os yw'r pridd yn sych, ychwanegwch ddŵr ato'n raddol, gan ei dylino rhwng eich bys a'ch bys bawd nes bod y pridd yn dechrau troi'n friwsion. Mae angen digon o ddŵr i ddal y pridd ac ei gilydd ac i ddangos pa mor ludiog ydyw.



Ffynhonnell: 'Think Soils' Asiantaeth yr Amgylchedd